OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1497 (Cy. 195)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffin Sirol Wrecsam/Sir Ddinbych, i'r Gorllewin o Froncysylltau i Gyffordd Bryn Dethol, i'r Dwyrain o Langollen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 May 2012* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn(**2**).

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffin Wrecsam/Sir Ddinbych, i'r Gorllewin o Froncysylltau i Gyffordd Bryn Dethol, i'r Dwyrain o Langollen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw’r cyfnod sy’n cychwyn am 07:30 o’r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac sy’n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *(“the length of the trunk road"* ) yw y darn hwnnw o gefnffordd Llundain-Caergybi (yr A5) sy'n ymestyn o bwynt ar y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Sir Ddinbych, i'r gorllewin o Froncysylltau i ganolbwynt ei chyffordd â Bryn Dethol, i'r dwyrain o Langollen;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 ar waith.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darn o'r gefnffordd.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y 29 Mai 2012

*G R Morgan*
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru